Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Rachel Collins
YGG Llwynderw
West Cross Lane
West Cross
SA3 5LS

01/05/2025

Annwyl Rachel Collins

**Ymweliad Interim:** Ebrill 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw ar 10 Ebrill 2025 i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael ag un o flaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol ar gyfer 2024 ynghyd ag un o'r blaenoriaethau cyfredol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

•ymweld â dosbarthiadau
•siarad â disgyblion
•cyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
•craffu ar waith disgyblion
•craffu ar ddogfennaeth

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella medrau llafar Cymraegdisgyblion gan gynnwys codi statws yr iaith a chariad tuag at yr iaith ar draws pob cam cynnydd

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion sy'n seiliedig ar fwynhau'r dysgu ac annog disgyblion i ymfalchïo yn eu Cymreictod.
- Mae athrawon yn angerddol dros y Gymraeg. Maent yn fodelau rôl effeithiol ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn fedrus.Maent yn cynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion yn bwrpasol.

- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda ac yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith ac yn trafod eu profiadau'n bwrpasol gyda'u cyfoedion. Mae llawer yn defnyddio cystrawen a geirfa sydd o fewn eu profiad gyda chywirdeb cynyddol. Mae ychydig yn defnyddio geirfa pwnc-perthnasol yn hyderus.
- Dros amser, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau Cymraeg o'u mannau cychwyn

## Arwain disgyblion i fod yn ddisgyblion annibynnol sydd yn dyfalbarhau wrth wynebu her

- Mae medrau dysgu annibynnol bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Yn nosbarthiadau y disgyblion ieuengaf, er enghraifft, mae bron bob disgybl yn hunan gofrestru a dewis dros eu hunain pa dasgau i'w cwblhau yn llwyddiannus. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'r 'byrddau cefnogi dysgu' yn lled annibynnol er mwyn ystyried camsyniadau a chefnogi eu dysgu'n bwrpasol.
- Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi sefydlu dulliau defnyddiol i hybu a chefnogi disgyblion i ddyfalbarhau a gweithio'n fwy annibynnol. Er ei bod yn rhy gynnar i werthuso'r effaith llawn ar ddeilliannau disgyblion, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymateb yn gadarnhaol i her yn datblygu'n dda.
- Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau'n annibynnol ac yn hwyluso'r dysgu'n fedrus. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach ac i sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol.
- Mae arweinwyr wedi gwneud addasiadau defnyddiol i bolisi adborth yr ysgol a'i gwneud yn fwy clir a hygyrch i ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hunan werthuso a gwella eu gwaith yn gynyddol hyderus.
- Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol i staff. Maent, er enghraifft, wedi cydweithio gydag ysgolion lleol i rannu arferion sy'n ymwneud â datblygu gwydnwch ac annibyniaeth disgyblion sydd, yn ei dro'n dechrau dylanwadu'n llwyddiannus ar fedrau dysgu annibynnol disgyblion.

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n bwrpasol i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn. Maent yn cydnabod bod ychydig agweddau i'w datblygu ymhellach.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6702235

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol